## Beth i'w wneud mewn argyfwng

Os, o ganlyniad i'r gweithgareddau, yr ydych yn datgelu tir neu'n dod i gysylltiad â phiben, yna:

1. Diffoddwch yr holl beiriannau sy'n gweithio
2. Tynnwch bob ffynhonnell danio
3. Symudwch bawb o ardal uniongyrchol y biblinell a symudwch i ardal fwy diogel
4. Os yw'r biblinell yn gollwng, ffoniwch 999 — rhowch wybod i'r heddlu a'r gwasanaethau brys
5. Peidiwch â cheisio selio piblinell sy'n gollwng
6. Os yw'r gollyngiad yn llosgi, peidiwch â cheisio diffodd y tân
7. Cysylltwch â rhif ffôn brys gweithredwr y biblinell. Gellir cael hwn oddi ar bost marcio piblinell cyfagos, ar yr holl ohebiaeth a gawsoch gan weithredwr y biblinell, neu ar y ddogfennaeth a ddarparwyd gan weithredwr y biblinell cyn i chi ddechrau gweithio
8. Dilynwch y cyngor a roddir gan weithredwr y biblinell ac yna gadewch iddynt wneud y sefyllfa'n ddiogel. Lle bo modd, cadwch bawb a'r holl drafnidiaeth ymhell o'r lleoliad.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

## Cymorth Pellach a Gweithredwyr Piblinellau

Mae gwefan UKOPA yn cynnwys manylion gwybodaeth y cwmni ar gyfer holl aelodau UKOPA. Ewch i **ukopa.co.uk/emergency/**

Gellir dod o hyd i gyflwyniad UKOPA am weithio'n ddiogel ger piblinellau pwysedd uchel yn **ukopa.co.uk/safe-working/** — cymerwch gip ar hwn a'i rannu gydag unrhyw staff a chontractwyr sy'n gweithio i chi.

Mae gweithredwyr piblinellau yma i helpu, felly cysylltwch â nhw cyn i unrhyw waith ddigwydd neu os oes gennych unrhyw ymholiadau.




UKOPA, Pipeline Maintenance Centre, Ripley Road,
Ambergate, Derbyshire, DE56 2FZ secretary@ukopa.co.uk

UKOPA

# Gweithio'n Ddiogel Ger Piblinellau Pwysedd Uchel

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor i unrhyw un yn y diwydiant adeiladu sy'n gweithio ger piblinellau Pwysedd Uchel wedi'u claddu. Mae'n egluro sut i leihau risgiau, gan y gall cyswllt â pheiriannau achosi difrod ar unwaith neu dros gyfnod hirach.



UKOPA

## Peryglon

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor i gontractwyr ac unrhyw un arall a allai weithio o fewn 50m i biblinellau pwysedd uchel (yn benodol, piblinellau wedi'u claddu) ac yn amlinellu beth ddylech chi ei wneud i sicrhau bod gweithwyr yn aros yn ddiogel wrth gynnal gwaith yn eu hymyl Mae gweithio ger piblinellau pwysedd uchel yn beryglus. **Os bydd peiriannau'n cyffwrdd â'r biblinell, gall difrod ddigwydd a allai arwain at fethiant ar unwaith neu fethiant dros gyfnod hirach o amser. Megis ffrwydrad a allai arwain at farwolaeth pobl gerllaw neu ddifrod amgylcheddol sylweddol.**

Mae'n gyffredin i gwmnïau cyfleustodau, asiantaeth yr priffyrdd a/neu berchnogion tir (ymhlith eraill) gyfarwyddo contractwyr i gwblhau gwaith. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y contractwyr a phawb sy'n gweithio ar y safle yw sicrhau bod unrhyw waith arfaethedig yn cael ei gynllunio a'i wneud yn gywir, a bod rhagofalon yn cael eu cymryd i ddiogelu piblinellau pwysedd uchel lle bo hynny'n briodol.

## Gweithgareddau Hysbysadwy

**Cyn gweithio yn ymyl Piblinellau Pwysedd Uchel, heblaw am weithgareddau amaethyddol arferol fel aredig, rhaid i chi gysylltu â gweithredwr y biblinell a fydd yn darparu manylion lleoliad y bibell ac unrhyw arweiniad a chyngor sydd ei angen. Mae'r canlynol yn weithgareddau hysbysadwy** ➞

## Gwaith ffordd

Megis, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Torri'r ddaear
- Adeiladu traciau / ffordd dros dro neu barhaol.

## Palmantu, borio ac arolygon

Unrhyw weithgareddau palmantu, borio neu arolwg tanddaearol o fewn 50m i'r biblinell.

## Gwaith cloddio

Mae pob gwaith cloddio (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, toriad agored, cloddio â gwactod, gwasanaethau newydd, gwaith atgyweirio, ac ati) yn weithgareddau hysbysadwy.

Dylech gysylltu â gweithredwr y biblinell yn ystod y cam cynllunio er mwyn cael y cyngor cywir.

## Gwaith gardd a phlannu

Pob gwaith cloddio o fewn 50m i'r biblinell, gan gynnwys plannu a gwaith tir.

## Croesi â cherbydau trwm

Mae gofynion arbennig eu hangen ar gyfer cerbydau trwm i groesi dros biblinellau pwysedd uchel.

## Ffensio

Gosod ffensys newydd neu rai sy'n cymryd lle ffensys presennol / pyst ffens neu byst giât, neu unrhyw weithgareddau ffensio eraill o fewn 50m i'r biblinell.

## Gorchudd a storio deunyddiau

Ni ddylid pentyrru na storio deunyddiau yn ymyl y biblinell nac o fewn hawddfreintiau'r biblinell.

## Gwaith adeiladu

Megis, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gosod pibellau dŵr, draeniau neu garthffosydd neu wasanaethau / cyfleustodau eraill
- Gosodiadau / gwaith trydanol
- Estyniadau eiddo (gan gynnwys datblygiad a ganiateir) neu newid defnydd
- Codi siediau neu dai haf / gosod lleiniau caled
- Datblygiadau tai ar raddfa fawr gyda seilwaith newydd amrywiol gan gynnwys gwasanaethau, ffyrdd, llwybrau troed, draeniad.

## Tanau

Ni ddylid adeiladu na chynnau tân o fewn hawddfraint y biblinell.

## Tyrbinau gwynt a ffermydd solar

Cysylltwch â gweithredwr y biblinell cyn gynted â phosibl (mae UKOPA wedi cynhyrchu canllawiau arfer da ar gyfer y ddau).

## Gwybodaeth a hyfforddiant

Gall unrhyw un yn yr ardal waith fod mewn mwy o berygl pan fyddant yn gweithio yn ymyl unrhyw biblinell pwysedd uchel. Cydnabyddir natur beryglus y piblinellau hyn yn neddfwriaeth y DU trwy Reoliad Diogelwch Piblinellau 1996 (PSR), yn arbennig Rheoliad 15 sy'n nodi "Ni ddylai unrhyw berson achosi difrod o'r fath i biblinell fel y gallai godi perygl i bersonau". Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod ble mae'r biblinell/au pwysedd uchel a bod unrhyw gyfyngiadau a rhagofalon angenrheidiol ar waith cyn i'r gwaith ddechrau. Efallai y bydd angen eglurhad ar y gweithwyr hynny nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Fel arfer, nodir lleoliad piblinell gan byst marcio ar ymylon caeau ac ymylon ffyrdd. Cofiwch, fodd bynnag, y gall pyst marcio gael eu symud neu eu difrodi'n ddamweiniol. Trwy gysylltu â gweithredwr y biblinell ymlaen llaw, gall cynrychiolydd y gweithredwr ymweld â'ch safle i leoli a marcio'r biblinell, a chynghori pa waith y gellir a pha waith na ellir ei wneud yn ddiogel. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen monitro tra bydd y gwaith yn cael ei wneud. Fel arfer, mae lleoliad piblinell yn wasanaeth **AM DDIM**.

**Cysylltwch â gweithredwr y biblinell am unrhyw waith arall nad yw wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon — byddant yn fwy na pharod i drafod unrhyw faterion posib. Gellir dod o hyd i gyngor pellach ar weithio'n ddiogel yn: ukopa.co.uk/safe-working**

